# ARWERTHIANT



*OLWEN CARADOC EVANS*

UN O bersonoliaethau mawr — a mwyaf stormus y Gymru gyfoes — o bosibl yw Olwen Caradoc Evans. Fe'i ganed yn Ymwlch, nid nepell o Gricieth, yng nghanol Eifionydd a pherthynas a chyfaill agos i'r teulu oedd y meddyg Carey Evans a briododd Olwen arall, sef merch David Lloyd George.

Pan oedd yn un ar bymtheg oed fe'i hanfonwyd i aros am gyfnod gyda theulu yn Paris lle medrai wneud dau beth — dysgu Ffrangeg a choginio. Ond fe fanteisiodd hefyd ar etifeddiaeth ddiwylliannol y brifddinas honno gan lwyr ymgydnabyddu â'r orielau a'r amgueddfeydd byd-enwog sydd yno, ar wahân i ddilyn cwrs yn y Sorbonne.

Bu'r wybodaeth a gasglodd yma am arlunwyr a cherflunwyr ac awduron yn ddylanwad mawr ar ei bywyd er na chafodd lawn gyfle i arddangos ei hun am lawer blwyddyn.

Pan ddychwelodd o Baris dechreuodd arbenigo ym myd iechyd a nyrsio ac o'r amser y bu'n gysylltiedig ag Ysbyty St Thomas yn Llundain bu am flynyddoedd mewn swyddi allweddol mewn llawer maes, gyda gwaith Ymwelydd Iechyd yn Swydd Rhydychen yn un o'i dyletswyddau cyntaf.

Ar wahân i gynorthwyo gydag ysgolion i enethod mewn trybini gwnaeth waith mawr i helpu'r rhai gwan eu meddwl yn arbennig yn Lerpwl a hefyd yn y Rhyl. Ac yr oedd yn ysgrifennydd i Goleg Brenhinol y Nyrsys yng Nghymru.

* * * *

YN Y cyfamser roedd wedi priodi yr hynaws a'r diweddar bellach, ysywaeth, Caradoc Evans. A gan fod ei holl oruchwylion yn gor-bentyrru gan beryglu ei hiechyd penderfynodd newid cwrs ei bywyd. Dylanwad ei dyddiau yn eneth ym Mharis o bosib yn helaeth gyfrifol am ei dewis o'r newydd dasg — casglu a marchnata hen luniau a chyfrolau.

Fe brynodd hen fwthyn rhamantus Tu Hwnt i'r Afon, gerllaw Afon Conwy yn Llanrwst; yn ddiweddarach symudodd hi a Caradoc i ben y Sychnant, ger Conwy, a phan gollodd Caradoc symudodd i Benmaen-mawr.

Olwen Caradoc Evans yw un o'n prif awdurdodau ar fapiau o bob math ac y mae ei chasgliad o hen fapiau, o brintiadau, o gyfrolau yn un nodedig iawn, er ei bod eisoes wedi rhoi cyfran o'i thrysorau ar werth.

Yn nhreigl amser prinhaodd y mapiau a'r printiadau gwreiddiol a datblygodd Olwen y grefft o'u hadgynhyrchu a'u lliwio (gyda llaw) gan eu marchnata ar raddfa eang — mae'r Americanwyr, fel enghraifft, ymysg ei chwsmeriaid.

Ac yr oedd ei harwerthiant yn Swindon, ar Dachwedd 20, yn un o'r rhai mwyaf diddorol ac amrywiol a welwyd ers tro — oddeutu tri chant o eitemau.

* * * *

CYMERIAD hoffus — a stormus hefyd ar adegau — arall o'r un fro ag Olwen Caradoc Evans oedd Emrys Jones, y cyfreithiwr a'r casglwr o Gricieth a fu'n gadeirydd lleol y Brifwyl pan ymwelodd ag Eifionydd am y tro cyntaf.

Yr oedd ei gasgliadau o feddargraffiadau yn rhanbarth Dwyfor yn ei gyfrol *Dagrau Gwerin*, a gyhoeddwyd ychydig cyn ei farw, yn atodiad i *Gleanings from God's Acre*, hen gyfrol sy'n mynd yn brin o waith cymeriad arall o gasglwr — ac yntau hefyd yn medru bod yn gymeriad tymhestlog — Myrddin Fardd.

Bu arwerthiant ychydig wythnosau'n ôl ym Mhorthmadog ar lyfrgell Emrys Jones. Ond yr oedd hefyd yn ei feddiant olud o ddogfennau cyfreithiol a hen ewyllysiau.

Daeth cefnogaeth bur dda i arwerthiant Dominic Winter yn Swindon ar gasgliad o drysorau Olwen Caradoc Evans a chafodd gwylwyr S4C gip ar y prynu a'r gwerthu diolch i raglen werthfawr *Hel Straeon*.

Dyma'r raddfa isaf o brisiau rhai eitemau a nodwyd yng nghatalog yr arwerthwyr Dominic Winter yn Swindon, ond fe werthwyd llawer o eitemau am sylweddol fwy na phrisiau rhesymol iawn y catalog:

**LLYFRAU**

**Ballinger (John & Jones, James Ifano). 'Cardiff Free Libraries Catalog 1898', ynghyd â dwy gyfrol am gynwysiadau yn y Llyfrgell Genedlaethol, £40—£70.**

**'Bye-Gones', 1871-1912, ynghyd â 1916-19, 1925-27, 1928-9, 1930-31, Croesoswallt, £100—£150.**

**'Cymru' (sef 'Y Cymru Coch', O. M. Edwards. Cyfrolau 1 i 44, sef o 1891 i 1913 wedi eu rhwymo'n 22 o gyfrolau, £150—£200.**

**'Reports of the Commisioners of Inquiry into the State of Education in Wales'. Arg cyntaf 1848 ('Brad y Llyfrau Gleision') ynghyd a 'Welsh Political and Educational Leaders in the Victorian Era', 1908, J. Vyrnwy Morgan, £30—£40.**

**Colin Gresham. 'Mediaeval Stone Carvings in North Wales', 1968, -50—£80.**

**Ifano Jones. 'A History of Printing and Printers in Wales', 1923, ynghyd â 'History of Printing and Printers in Monmouthshire', 1925, £30—50.**

**Thomas Pennant. 'A Tour in Wales', 1784, £70—£100.**

**Hughes. 'The Old Cottages of Snowdonia', 1908, £15—£25.**

**PRINTIAU**

**Salem. Curnow Vosper, £30—£50.**

**Byrne (o lun gan Richard Wilson), Castell Caernarfon. Ynghyd â golygfa o'r Wyddfa gan J. Boydell, £50—£80.**

**America. Declaration of Independence. Argraffiad darluniadol, 1819, £500—£700.**

**Copi o'r uchod gan Olwen Caradoc Evans, 1976, £70—£100.**

**MAPIAU A SIARTIAU**

**Johannes Blaeu. Siroedd Caernarfon a Môn, c.1650, £100—£150.**

**Johannes Blaeu. Ceredigion, c.1650, £80—£120.**

**John Evans (Llanymynech). Map o chwe sir Gogledd Cymru, 1795, £100—£150.**

**William Morris. Siart o Arfordir Cymru, 1800, £200—£300.**

**Copi arall o'r uchod ond heb ei liwio, £100—£150.**

**Lewis Morris. Siart o Arfordir Cymru, 1748. Heb ei liwio, £300—£500.**

**Copi o'r uchod wedi ei adgynhyrchu gan Olwen Caradoc Evans ac wedi ei liwio â llaw, £40—£70.**

**Lewis a William Morris. Plans of the Prinicipal Harbours, Bars, Bays in St. George's Channel, 1800, £100—£150.**

**Mapiau, 1610 (arg. cyntaf) gan John Speed o siroedd Brycheiniog, Ceredigion, £100—£150 yr un.**

**Map John Speed, 1610, Mynwy, £150—£200.**

## PROGRAMME.

*1st Group.* A — *ITALIAN.*

| | | |
|---|---|---|
| NEBBIE ... | | |
| FIOCCA LA NEVE | ... | *Cimera* |
| BERGERETTE | ... | |

B. — *FRENCH.*

| | | |
|---|---|---|
| D'UN PRISON | ... | *Reynalds Hahn* |
| PSYCHE | ... | *Palasilne* |
| LA PROCESSION | ... | *Cesar Frank* |

*2nd Group.* — *GERMAN.*

| | | |
|---|---|---|
| DER DOPPELGANGER | ... | *Schubert* |
| DIE ALLMACHT | ... | *Schubert* |
| WAS SOLL ICH SAGEN | ... | *Schumann* |
| GESANG WEYLA'S | ... | *Wolffe* |
| VON EWIGER LIEBE | ... | *Brahms* |
| VERGEBLICHES STANCHEN | ... | *Brahms* |

*3rd Group.* — *ENGLISH & WELSH.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| *A* | TWILIGHT FANCIES | ... | *Delius* |
| | HYMN FROM THE RIGVEDA | ... | *Holst* |
| | WHEN I AM LAID IN EARTH | ... | *Purcell* |
| *B* | ACEN Y G'LOMEN (Hen Alaw) | ... | |
| | ADERYN GWEDDW (English & Welsh) | ... | *Osborne Roberts* |
| | PISTYLL Y LLAN (Hen Alaw) | ... | |

*Dengys y manylion sydd yn y daflen uchod pa mor amryddau oedd y gantores Leila Megáne. O'r tair cân Gymraeg sydd yn detholiad yma mae 'Aderyn Gweddw' o ddiddordeb arbennig ga mai trosiad R. Williams Parry o gerdd 'A Widow Bird' yw geiriau, sy'n dechrau, 'Aderyn gweddw wylai, wylai am ei Wen*